# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 4 Mawrth 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y mae'n bwriadu achredu nifer ddigonol o golonoscopyddion ac offer ar gyfer y rhaglen sgrinio'r coluddyn yng Ngheredigion? (WAQ51413)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y mae'n bwriadu achredu nifer ddigonol o golonoscopyddion ac offer ar gyfer y rhaglen sgrinio'r coluddyn ym Mhowys? (WAQ51416)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y mae'n bwriadu achredu nifer ddigonol o golonoscopyddion ac offer ar gyfer y rhaglen sgrinio'r coluddyn yn Sir Benfro? (WAQ51419)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 3 Mawrth at bob AC ynglŷn â rhaglen sgrinio canser y coluddyn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i annog pobl i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio'r coluddyn yng Ngheredigion? (WAQ51414)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i annog pobl i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio'r coluddyn ym Mhowys? (WAQ51417)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i annog pobl i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio'r coluddyn yn Sir Benfro? (WAQ51420)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 3 Mawrth at bob AC ynglŷn â rhaglen sgrinio canser y coluddyn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd gaiff y rhaglen sgrinio am ganser y coluddyn ei chyflwyno ym Mhowys? (WAQ51415)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd gaiff y rhaglen sgrinio am ganser y coluddyn ei chyflwyno yn Sir Benfro? (WAQ51418)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd gaiff y rhaglen sgrinio am ganser y coluddyn ei chyflwyno yng Ngheredigion? (WAQ51421)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 3 Mawrth at bob AC ynglŷn â rhaglen sgrinio canser y coluddyn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y colonoscopyddion yng Nghanol De Cymru? (WAQ51422)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen sgrinio am ganser y coluddyn yng Nghanol De Cymru? (WAQ51423)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i annog pobl i gymryd rhan mewn sgrinio am ganser y coluddyn? (WAQ51424)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr ar 3 Mawrth i bob AC ynglŷn â rhaglen sgrinio canser y coluddyn.
Ni chedwir gwybodaeth am nifer y colonosgopyddion yng Nghymru yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod gerddi rhestredig yng Nghymru? (WAQ51434)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ymgyngoreion statudol mewn ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â gerddi/tirluniau rhestredig yng Nghymru? (WAQ51435)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Mae Cadw, is-adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad, wedi llunio Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Nid yw hyn yn cynnig diogelwch statudol, ond mae'n pwysleisio arwyddocâd hanesyddol y safleoedd ar y gofrestr at ddibenion rheoli datblygu.
Mae canllawiau cyhoeddedig Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i awdurdodau lleol ymgynghori â Cadw ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar barciau a gerddi cofrestredig gradd I a II* a Chymdeithas Hanes Gerddi ynghylch yr holl raddau cofrestredig. Gwneir hyn yn wirfoddol ar hyn o bryd. Bydd y Mesur Diogelu Treftadaeth arfaethedig yn ceisio darpariaeth i gynnwys parciau a gerddi hanesyddol ar asedau Cofrestr Dreftadaeth statudol unedig a bwriadwn gynnal ymgynghoriad statudol o ganlyniad i hynny.
Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddiogelu parciau a gerddi hanesyddol ar y gofrestr. Fodd bynnag, wrth wneud penderfyniad ar geisiadau ar gyfer datblygu mewn parc a gardd hanesyddol, neu eu lleoliad, cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio yw cael cydbwysedd rhwng yr angen i ddiogelu cymeriad hanesyddol y safle ac ystyriaethau perthnasol eraill.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** O ba elfennau o'r gyllideb yn y Cynllun Datblygu Gwledig y daeth y £5.3 miliwn a ddefnyddiwyd i gyllido'r gwelliant Tir Mynydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar? (WAQ51391)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae £29 miliwn ar gael i dalu costau cynllun Tir Mynydd 2008, gan gynnwys costau gwella'r tir pori. Daw'r arian o gyllideb 2007-2008 o dan linell wariant Tir Cymru yn y gyllideb sy'n cynnwys Tir Mynydd. Cychwynnwyd taliadau'r cynllun ar 3 Mawrth.
Fel yr esboniais yn fy Natganiad ar 20 Chwefror, mae cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd o ran y Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnwys cytundeb ar ddarpariaeth llinell sylfaen flynyddol ar gyfer Tir Mynydd o £25.5 miliwn o gynllun 2008. Mae'r gwelliant ond yn gymwys i gynllun Tir Mynydd 2008 ac amcangyfrifir y bydd yn costio £3.5 miliwn nid £5.3 miliwn.